# Ionawr 2008 Y Pwyllgor Deisebau

## PET(3)08-01 (p5): 17 Ionawr 2008

### Deiseb cyf P-03-066: Rheilffordd Abertawe-Y Mwmbwls - Ystyried astudiaeth dichonolrwydd

### Diben

Gofynnir i'r Pwyllgor ystyried adroddiad dichonolrwydd a ddarparwyd gan Gyngor Dinas a Sir Abertawe.

### Y Cefndir

Mae'r ddeiseb yn galw am ymchwiliad i ddichonolrwydd ailosod ac adfer defnyddio'r rheilffordd Abertawe -Y Mwmbwls er budd dinasyddion Abertawe.

Ystyriwyd y ddeiseb am y tro cyntaf gan y Pwyllgor yn ei gyfarfod 20 Medi 2007. Yn y cyfarfod hwn, cytunodd y Pwyllgor y byddai'r Cadeirydd yn ysgrifennu i Gyngor Dinas a Sir Abertawe i ofyn am gopi o'r astudiaeth dichonolrwydd diweddaraf. Darparwyd hwn ac fe'i hatodir yn Atodiad A i'r papur hwn. Anfonwyd copi hefyd at y prif ddeisebydd.

### Camau i'w cymryd gan y Pwyllgor

Gofynnir i'r Pwyllgor ystyried yr astudiaeth dichonolrwydd a phenderfynu ar unrhyw gamau ymhellach.

Gwasanaeth y Pwyllgorau

Ionawr 2008